

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

# Prif Weithredwr: Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd

uchelgaisgogledd.cymru

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Swydd  Ddisgrifiad | 4 |
| Manylion Person | 6 |
| Amodau a Thelerau Gwaith Cyffredinol | 9 |
| Y Cyflogwr | 10 |
| Ein Gwerthoedd | 11 |
| Amserlen a'r Broses Recriwtio | 12 |
| Buddion | 13 |


Am fwy o wybodaeth am y swydd, cysylltwch â:




Dafydd Gibbard
Prif Weithredwr, Cyngor Gwynedd
dafyddgibbard@gwynedd.llyw.cymru

**Annwyl Ymgeisydd,**

Rydym yn falch iawn eich bod yn ystyried ymuno â'r tîm yng Nghyd-bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru. Rydym yn dîm o unigolion angerddol a brwdfrydig sy'n falch o fod yn rhan o ddatblygu strategol, trafnidiaeth a datblygu economi Gogledd Cymru.

Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn bartneriaeth gref, sy'n gweithio ar ran Gogledd Cymru i gyflawni gweledigaeth yn y dyfodol ar gyfer ffyniant economaidd. Mae gennym dîm sefydledig o unigolion proffesiynol ac ymroddedig sydd â'r dasg o yrru ein gweledigaeth ymlaen, ac mae angen Prif Weithredwr arnom nawr i ymuno â'r tîm hwnnw a gyrru ein huchelgeisiau ymlaen.

Rydym yn gweithio'n agos fel tîm, ac rydym wedi datblygu set o werthoedd sy'n sail i sut rydym yn gweithio a'r hyn rydyn ni'n ei ddisgwyl gan eraill. Rydym yn uchelgeisiol, rydym yn grymuso ac yn cefnogi ein gilydd i lwyddo, mae gennym uniondeb ac rydym yn ymfalchïo mewn gwneud yr hyn a rydym yn ei ddweud, ac rydym yn parchu ac yn gwerthfawrogi pobl a'u safbwyntiau wrth i ni lunio dyfodol gwych i ogledd Cymru. Rydym yn gobeithio y byddwch chi'n ystyried gwneud cais am y swydd hon i ymuno â ni ar y daith hon.



**Cyng. Mark Pritchard**
Cadeirydd Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd



**Cyng. Charlie McCoubrey**
Is-Gadeirydd Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd

# Swydd Ddisgrifiad

## Pwrpas y swydd

- Bod yn atebol i Gydbwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru wrth gyflawni ei weledigaeth a'i ddyheadau ar gyfer y rhanbarth - gan integreiddio Cytundeb Twf Gogledd Cymru i'r endid rhanbarthol newydd hwn a thrwy hynny, cyflawni un math o lywodraethu economaidd rhanbarthol.
- Bod yn gyfrifol am ddarparu arweinyddiaeth i Dîm Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru a'r holl weithwyr, gan fynd i'r afael â materion staff ac adnoddau eraill sydd eu hangen i ddarparu swyddogaethau a gwasanaethau'n gost-effeithiol ac o ansawdd uchel, yn ogystal ag anghenion y rhanbarth.
- Gweithredu, cynnull a darparu gwasanaethau a swyddogaeth mewn amgylchedd llywodraethu aml-lefel newydd, gan adlewyrchu'r angen i weithio'r effeithiol ar draws haenau llywodraeth leol, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.
- Datblygu a gweithredu strategaeth, polisïau a phrosesau i sicrhau bod y sefydliad yn cyflawni'r nodau a bennwyd gan y Cyd-bwyllgor fel endid cyfreithiol a chorfforedig newydd.
- Cynorthwyo Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru i ddatgloi cyllid llywodraeth a buddsoddiadau eraill ar gyfer ategu ac ychwanegu gwerth at raglenni ariannu a buddsoddi presennol.
- Datblygu perthynas waith effeithiol gydag Aelodau Etholedig i wireddu gweledigaeth, polisïau a rhaglenni'r Cydbwyllgor ar gyfer model integredig o fuddsoddiad a gweithgaredd rhanbarthol, fel yr adlewyrchir yn y cynllun corfforedig a'r fframwaith cyllidebol.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid a sicrhau ymgysylltu rhagweithiol gyda phartneriaid awdurdodau lleol, partneriaid strategol a sefydliadau eraill i wireddu cyd-ddyheadau ar gyfer y rhanbarth.



| | |
|---|---|
| Cyflog | Hyd at £125,000 |
| Adrodd i | Cadeirydd y Cyd-Bwyllgor |
| Atebol i | Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd |
| Lleoliad | Lleoliad y swyddfa ar gyfer y swydd hon fydd Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, ond bydd gweithio gartref a gwaith maes/lleol yn ofynion ar gyfer y rôl. Mae gweithio ystwyth yn nodwedd allweddol ac yn ddisgwyliad o'r rôl hon. |

# Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau

- Bod yn atebol i'r Cyd-bwyllgor a gweithredu fel prif gynghorydd iddo, gan roi arweiniad clir i Aelodau Etholedig wrth lunio a chyflwyno cynllun corfforedig o fewn y fframwaith cyllidebol y cytunwyd arno.
- Gweithredu fel Prif Weithredwr y sefydliad, gan ganolbwyntio ar faterion o arwyddocâd strategol, ac arwain a rheoli'r berthynas â rhanddeiliaid a phartneriaid mewnol ac allanol.
- Hyrwyddo proffil Rhanbarth Gogledd Cymru yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.
- Arwain y sefydliad drwy gyfnodau o newid sylweddol, gan sicrhau gweithio effeithiol ar draws y sefydliad a chyda phartneriaid.
- I weithio mewn partneriaeth gydag uwch swyddogion o fewn y sefydliad, yn ogystal ag uwch swyddogion o fewn yr Awdurdodau Lleol a gynrychiolir yn y CBC, i dyfu a chryfhau'r sefydliad a'i wneud yn gynaliadwy.
- Arwain y Tîm Rheoli Corfforedig gan alluogi blaenoriaethu effeithiol o adnoddau a'r rhaglen, a gyrru ymlaen â darparu gwasanaethau o safon sy'n cwrdd ag anghenion rhanddeiliaid, partneriaid, partneriaid Awdurdod Lleol, dinasyddion, cymunedau a chwsmeriaid.
- I gydlynu rheolaeth y sefydliad o adnoddau allweddol—adnoddau dynol, ariannol, gwybodaeth ac asedau—i sicrhau effeithlonrwydd a gwerth am arian.
- Gweithio gyda Swyddog Adran 151 a Swyddog Monitro penodedig y Cyd-bwyllgor i baratoi cyllideb flynyddol y sefydliad, dadansoddi'r risg ynghlwm â buddsoddiadau'r sefydliad, a chynghori'r Cyd-bwyllgor parthed y risg a'r enillion o fuddsoddiadau.
- Penodi neu gefnogi penodi uwch reolwyr o fewn y sefydliad yn unol â gofynion polisi.
- Gosod ac adolygu amcanion a safonau perfformiad ar gyfer Tîm Rheoli'r sefydliad.
- Sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer llywodraethu corfforedig effeithiol o'r sefydliad a chyfreithlondeb, priodoldeb, uniondeb, atebolrwydd priodol, a chraffu ar brosesau o wneud penderfyniadau.
- Sicrhau bod trefniadau yn eu lle i gyflawni amcanion y sefydliad a chyflawni gwelliant parhaus a chynaliadwy.
- I ddangos ymrwymiad agored i fynd ati i ddathlu amrywiaeth gyfoethog y rhanbarth, gan sicrhau cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol.
- I ymgymryd â rôl swyddog cyffredinol gyda chyfrifoldeb bod y sefydliad yn bodloni'r holl ofynion cyfreithiol mewn perthynas â rheoli iechyd a diogelwch.
- I ymgymryd â rôl lysgenhadol ar ran gweithwyr y sefydliad.



# Manylion Person

| Meinir Prawf | Hanfodol | Dymunol | Dull asesu |
|---|---|---|---|
| **Addysg / Cymwysterau Proffesiynol** | | | |
| • Addysg i lefel gradd neu gyfatebol mewn maes perthnasol | ☑ | | G |
| • Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol a rheolaethol parhaus a pherthnasol | ☑ | | G |
| **Gwybodaeth a Sgiliau** | | | |
| • Y gallu i ddarparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol ac ysbrydoli pobl. | ☑ | | G,C,A |
| • Y gallu i greu ac ysgogi timau sy'n perfformio'n arbennig | ☑ | | G,C,A |
| • Y gallu i arwain rhaglenni a phrosiectau mawr a chymhleth er mwyn cyflawni deilliannau llwyddiannus. | ☑ | | G,C |
| • Gwybodaeth o'r cyd-destun gwleidyddol ar lefel lleol, cenedlaethol ac ar lefel y DU ynghyd a'r gallu wedi ei brofi o fedru gweithio mewn amgylchedd gwleidyddol sensitif. | ☑ | | G,C,A |
| • Sgiliau rhyngbersonol ardderchog a'r gallu i greu cydberthnasau. | ☑ | | C,A |
| • Hanes o brofi'r gallu i arwain timau aml disgyblaethol ar draws sefydliadau. | ☑ | | G,C |
| • Hanes o brofi'r gallu i ddarganfod atebion creadigol ac arloesol i broblemau cymhleth ac i weithio gydag amrediad o bartneriaid i'w gweithredu. | ☑ | | G,C,A |
| • Dealltwriaeth o ranbarth Gogledd Cymru a'r gwahanol faterion cymdeithasol ac economaidd y mae ei amrywiol rannau yn eu hwynebu. | ☑ | | G,C |
| • Sgiliau cyfathrebu, dylanwadu a negodi ardderchog. | ☑ | | G,C,A |
| • Gwybodaeth o'r hyn sy'n allweddol yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, sy'n cael ardrawiad ar drafnidiaeth, sgiliau a chyflogaeth, datblygu'r economi a thwf sectorau, strwythur waith digidol a chynllunio defnydd tir. | ☑ | | G,C,A |
| • Hanes o brofi'r gallu i gyflawni rhaglenni yn amserol ac i gyllideb. | ☑ | | G,C |
| • Sgiliau negodi er mwyn sicrhau cyllid cyhoeddus a dod i gytundebau masnachol gyda phartneriaid. | ☑ | | G,C |
| • Gallu empatheiddio a deall anghenion Gogledd Cymru. | ☑ | | C,A |
| • Gallu dadansoddi a defnyddio data cymhleth i ddarogan angen e.e. tueddiadau demograffig ac economaidd. | ☑ | | G,C,A |
| • Dealltwriaeth o brosesau llywodraeth leol a llywodraeth ganol ynghyd a chyllid llywodraeth leol. | | ☑ | C |
| • Y gallu i gyfathrebu gyda rhanddeiliaid yn y Gymraeg | | ☑ | C |

# Manylion Person

| Meinir Prawf | Hanfodol | Dymunol | Dull asesu |
|---|---|---|---|
| **Profiad** | | | |
| • Profiad o weithio mewn swydd reolaethol uwch mewn sefydliad cymhleth ac aml ddisgyblaethol yn y sector breifat neu'r sector gyhoeddus. | ☑ | | G,C |
| • Profiad o weithio gyda phob agwedd o fframweithiau cynllunio busnes a rheoli risg a pherfformiad. | ☑ | | G,C |
| • Lefel berthnasol o brofiad ym meysydd trafnidiaeth, sgiliau a chyflogaeth, datblygu'r economi a thwf sectorau, strwythurau digidol a chynllunio defnydd tir. | ☑ | | G,C |
| • Profiad o gynllunio strategol, denu adnoddau a rheoli cyllidebau mawr ac adnoddau eraill boed yn y sector gyhoeddus neu'r sector breifat. | ☑ | | G,C |
| • Profiad o weithio o fewn fframwaith lywodraethu'r sector gyhoeddus. | ☑ | | G,C |
| • Profiad o weithio mewn partneriaeth gydag amrediad o sefydliadau. | ☑ | | G,C |
| **Nodweddion Personol** | | | |
| • Gallu dangos lefel uchel o hygrededd personol a'r gallu i ymgysylltu ag eraill. | ☑ | | C,A |
| • Yn hunan ysgogol ac yn gryf o dan bwysau | ☑ | | G,C,A |
| • Empathetig ac yn gallu ymateb i anghenion eraill. | ☑ | | C,A |
| • Ymrwymiad cryf i wasanaeth cyhoeddus ac anghenion pobl Gogledd Cymru a'r rhannau gwahanol hynny sy'n creu'r rhanbarth. | ☑ | | G,C,A |
| • Ymrwymiad cryf i anghenion Gogledd Cymru. | ☑ | | G,C,A |
| • Yn fyw i sensitifrwydd gwleidyddol. | ☑ | | C,A |
| • Ymdeimlad cryf o hunan adlewyrchu a hunan asesu ynghyd ag atebolrwydd i eraill. | ☑ | | C,A |
| • Derbyn cyfrifoldeb. | ☑ | | C,A |
| • Yn berchen ar werthoedd moesol. | ☑ | | C,A |
| • Gallu newid steil bersonol i gydweddu gyda gofynion gwahanol sefyllfaoedd | ☑ | | C,A |
| • Synnwyr cryf o uchelgais ar gyfer y rhanbarth. | ☑ | | G,C,A |
| • Ymroddgar a brwdfrydig. | ☑ | | C,A |

**Allwedd Dull asesu**
G - Ffurflen Gais
A - Canolfan Asesu
C - Cyfweliad

# Amodau a Thelerau Gwaith Cyffredinol

Bydd y penodiad yn cael ei wneud yn unol ag amodau a thelerau Prif Weithredwyr Llywodraeth Leol (gan gynnwys unrhyw addasiadau lleol i'r telerau hynny) neu delerau lleol ehangach eraill sydd yn rhan o gytundeb torfol rhwng y Cyd-Bwyllgor Corfforedig a'r undebau llafur.

## Oriau Gwaith

- Yr oriau gwaith wythnosol safonol ydi 37 awr, ond mae natur y swydd yn golygu y bydd angen i'r sawl a benodi weithio oriau anghymdeithasol y tu hwnt i hynny hefyd.

## Amser Gwasanaeth

- Bydd holl amser gwasanaeth deilydd y swydd yn cael ei dreulio ar waith y Cyd-bwyllgor. Ni chaniateir iddo / iddi ymgymryd ag unrhyw waith na chyflogaeth arall heb ganiatâd penodol y Cyd-bwyllgor.

## Cyflog

- Graddfa cyflog y swydd yw £115,928 - £125,000.
- Bydd cynnydd trwy hicynnau o fewn y raddfa cyflog ar sail blynyddol a hynny ar y 1af o Ebrill o bob blwyddyn, yn ddibynnol ar ddatblygiad boddhaol o fewn y swydd.
- Telir y cyflog yn fisol trwy drosglwyddiad credyd banc ar yr 19eg o bob mis (neu'r dyddiad gwaith agosaf os yw'r dyddiad yn disgyn ar benwythnos neu ŵyl y banc).

## Treuliau

- Caniateir treuliau teithio a chynhaliaeth ynghyd ag unrhyw dreuliau eraill priodol ar sail yr hyn a benderfynwyd gan y Cyd-bwyllgor ac unrhyw gytundeb cenedlaethol fel y mabwysiadwyd neu ddiwygiwyd gan y Cyd-bwyllgor.
- Dynodir y swydd yn un defnyddiwr car at ddefnydd y swydd yn ôl y galw. Pan fyddwch yn defnyddio'r car ar fusnes y Cyd-bwyllgor telir treuliau i chi yn unol a'r raddfa achlysurol.

# Amodau a Thelerau Gwaith Cyffredinol

**Gwyliau**

- Caniateir 31 diwrnod o wyliau gyda 5 diwrnod ychwanegol ar ôl cwblhau 5 mlynedd o wasanaeth di-dor.
- Yn ogystal caniateir 11 diwrnod a hanner o wyliau banc a gwyliau statudol ychwanegol.

**Rhybudd**

- Isafswm y cyfnod rhybudd gan y ddwy ochr fydd 3 mis.

**Buddiannau**

Mae pecyn buddiannau ar gael tra'n gweithio i'r Cyd-bwyllgor, gan gynnwys:

- Mynediad i gynllun pensiwn llywodraeth leol.
- Gweithio'n hyblyg - cyflogwr sydd yn fodlon ystyried, ac wedi arddangos, ei barodrwydd i gefnogi staff i weithio ar sail hyblyg, fel sail i ganfod balans gwaith a bywyd llesol.
- Pecyn adleoli o dan amodau penodol - cefnogaeth Ariannol ar gael i symud cartref, o dan amodau penodol.
- Cyfraniad ariannol tuag at aelodaeth o un corff proffesiynol.

**Cyfyngiadau gwleidyddol**

- Mae'r swydd hon yn un sydd wedi ei chyfyngu yn wleidyddol o dan ddarpariaeth Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Mae hynny'n golygu na ddylai'r deilydd ddangos tuedd wleidyddol.



# Y Cyflogwr

Ers y 1af o Ebrill 2025 mae Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Uchelgais Gogledd Cymru) wedi ei sefydlu fel endid llywodraeth leol corfforaethol rhanbarthol sydd yn awdurdod cyflogi, Mae gan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig bwerau, dyletswyddau, llywodraethiant a strwythurau gweinyddol tebyg i awdurdodau lleol yng Nghymru.

Sefydlwyd pedwar CBC yng Nghymru ar 1 af o Ebrill 2021, yn seiliedig ar yr ardaloedd daearyddol y gofynnwyd amdanynt gan lywodraeth leol, ac yn adlewyrchu trefniadau cydweithio Rhanbarthol oedd yn bodoli eisoes. Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn cynnwys y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru - Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam ynghyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Ar hyn o bryd mae gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig dri maes mae'n canolbwyntio arnynt - cynllunio strategol, trafnidiaeth strategol a llesiant economaidd.

# Gwerthoedd tîm Uchelgais Gogledd Cymru

**Rydym yn Uchelgeisiol**

Rydym yn ymdrechu i gyflawni'r gorau ar gyfer Gogledd Cymru. Rydym yn arweinwyr yn ein meysydd, ffurfwyr barn a dylanwadwyr, ac rydym yn herio meddwl confensiynol. Rydym yn dilyn safonau uchel, yn anelu at fod yn ein gorau, ac yn datblygu ein hunain yn broffesiynol yn barhaus.

**Rydym yn gweithio ar y cyd**

Rydym yn rhannu gwybodaeth, sgiliau, gwybodaeth a chefnogaeth ac yn sicrhau ein bod yn rhoi gwybod i gydweithwyr. Rydym bob amser yn helpu ein gilydd, yn hwyluso cyfleoedd i Ogledd Cymru ac yn cydnabod bod ein heffaith ar y cyd yn fwy sylweddol na'n heffaith unigol.

**Rydym yn gwneud y peth iawn**

Rydyn ni'n gwneud y peth iawn, nid yr hyn sy'n hawdd. Rydym yn herio ymddygiad anfoesegol ac yn siarad pan nad yw pethau'n teimlo'n iawn. Rydym yn barchus, yn deg ac yn ystyriol a gallwn ymddiried ynddo i gyflawni ymrwymiadau y cytunwyd arnynt ar amser.

**Rydym yn gwneud gwahaniaeth**

Rydym yn mynd ar drywydd cyfleoedd i wneud gwahaniaeth yng Ngogledd Cymru. Rydym yn hyrwyddo'r Gymraeg, treftadaeth a diwylliant ac yn cefnogi elusennau rhanbarthol. Rydym yn diogelu'r amgylchedd ac yn chwilio am gyfleoedd i leihau ein hôl troed.



# Amserlen Recriwtio

**Dyddiad cau**

**Dylid cyflwyno ceisiadau erbyn 10:00 y bore, dydd Llun, 28 Ebrill 2025**

**Rhestr Fer**

**Byddwn yn anelu i gysylltu gyda'r ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer erbyn y dyddiad canlynol, gyda manylion dyddiadau asesiadau ar lein a chyfweliad dilynol - diwedd dydd Gwener, 9 Mai 2025.**

**Canolfan Asesu**

**Bydd Canolfan Asesu yn cael ei chynnal yn ystod yr wythnos yn cychwyn yr 19 o Fai 2025. Union ddyddiad i'w gadarnhau wedi'r broses tynnu rhestr fer**

**Cyfweliad Terfynol**

**Cyfweliad terfynol gyda aelodau'r CJC - dydd Mercher, 11 Mehefin 2025. Gofynnir i bob ymgeisydd gadw'r dyddiad yn rhydd am y tro.**

# Y Broses Ymgeisio

Dilynwch y linc yma i gysylltu â phorth recriwtio Cyngor Gwynedd. Bydd gofyn i chi greu cyfrif i gyflwyno cais.

Cofiwch lenwi pob adran o'r ffurflen. Mae croeso i chi gyflwyno eich ffurflen yn Gymraeg neu Saesneg.

Ar ôl y dyddiad cau bydd panel asesu yn asesu eich cais yn erbyn y gofynion a nodir yn y fanyleb bersonol.  Cofiwch sicrhau fod eich datganiad personol yn cyfarch yr holl ofynion hanfodol sydd wedi ei gosod allan yn y manylion person.

Bydd ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rhestr fer yn cael eu gwahodd i Ganolfan Asesu a Chyfweliad, bydd manylion y cyfweliadau yn cael eu hanfon o leiaf wythnos ymlaen llaw.

Sylwch na fydd ceisiadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried

# Buddion

Mae nifer o fuddion o weithio i Gyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd , mae manylion llawn ar gael yma. Dyma grynodeb o'r prif fuddion:

### Cynllun Pensiwn

Mae Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn gweithredu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae gwybodaeth am y gronfa ar gael ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd

### Gwyliau Blynyddol

Mae gan weithwyr Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd hawl i rhwng 21 a 31 diwrnod o wyliau'r flwyddyn yn ddibynnol ar raddfa'r swydd. Yn ogystal, mae gan weithwyr hawl i 8 diwrnod o wyliau banc / gwyliau cyhoeddus a 3 ½ diwrnod arall

### Absenoldebau Arbennig

Yn ogystal â'r gwyliau uchod, gellir caniatáu absenoldeb gyda thâl mewn amgylchiadau arbennig megis symud tŷ, profedigaeth, mynychu apwyntiadau meddygol, ymgymryd a dyletswyddau cyhoeddus

### Cydbwysedd bywyd a gwaith

Mae Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn cynnig nifer o gyfleoedd gweithio'n hyblyg er mwyn helpu gweithwyr i daro cydbwysedd iach rhwng bywyd cartref a gwaith. Gall gweithiwr fanteisio o'r trefniadau canlynol:

- Cynllun gweithio oriau ystwyth
- Absenoldeb mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu
- Absenoldeb ychwanegol heb dâl i rieni a gofalwyr
- Gweithio'n hyblyg

### Hyfforddiant a datblygiad

Mae Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn gweld gwerth uchel mewn buddsoddi yn ei adnodd pwysicaf - sef ei weithwyr. Gall pob gweithiwr ddisgwyl:

- Proses anwytho ffurfiol ac adolygiadau perfformiad parhaus
- Ystod eang o gyfleodd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol ·
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith

Cyd-Bwyllgor Corfforedig
Gogledd Cymru
North Wales
Corporate Joint Committee

uchelgaisgogledd.cymru